
SESIWN 1

DEWIS MATER

Amser

Awr.

Ynglŷn â'r sesiwn hon

Yn y sesiwn hon caiff y disgyblion eu cyflwyno i'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu. Byddant yn edrych ar enghreifftiau o bobl ifanc sydd wedi cymryd camau gweithredu i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol yn fyd-eang, a phenderfynu ar ba fater yr hoffent ganolbwyntio i achosi newid cadarnhaol.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu:

- deall yr hyn sydd ynghlwm â'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu;
- gwybod sut a pham bydd pobl yn cymryd camau gweithredu, a gwerthuso llwyddiant gwahanol dechnegau;
- nodi mater hawliau dynol sy'n bwysig iddynt hwy a chyfiawnhau ei bwysigrwydd.

Cwestiynau allweddol

Beth yw'r prosiect cymryd camau gweithredu?

Sut gall pobl sy'n debyg i mi achosi newid?

Ar ba fater hawliau dynol ydw i eisiau canolbwyntio?

Yr adnoddau sydd eu hangen

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioe sleidiau PowerPoint

PowerPoint: Prosiect Cymryd Camau Gweithredol – Sesiwn 1

Ffilm – *Over to You*

Taflen Waith 1 – *Over to You* (un ar gyfer pob disgybl)

Taflen Waith 2 – *Beth sy'n bwysig i mi?* (un ar gyfer pob disgybl)

Taflen crynodeb Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

(yn y ffolder yng nghefn y pecyn, un ar gyfer pob grŵp)

Gwaith grŵp/cam gweithredu'r dosbarth

Mae'r prosiect hwn yn caniatáu i wahanol grwpiau yn y dosbarth weithio ar wahanol faterion. Fodd bynnag, efallai byddwch yn penderfynu y dylai'r dosbarth cyfan weithio ar un mater gyda'i gilydd. Os ydych yn cymryd yr ymagwedd hon, dylech gynnwys cyfleoedd i'r myfyrwyr gyflwyno eu dewis fater i weddill y dosbarth a phleidleisio ar ba fater sy'n well ganddynt. Os ydych yn gweithio ar un mater, mae hi'n bosibl o hyd i rannu'r dosbarth yn grwpiau llai a gall pob grŵp weithio ar gam gweithredu gwahanol ar gyfer yr un mater. Er enghraifft, gallai un grŵp drefnu trafodaeth, gallai un grŵp gynllunio posteri ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth a gallai un grŵp gyfweld â'u cynghorydd lleol.

Cynllun gwers

Amser	Cyflwyniad	Adnoddau
0-5 munud	Cwblhewch y gweithgaredd 'Cytuno? Anghytuno?' ar sleid 3 ar y PowerPoint. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, darllenwch bob gosodiad ar goedd a gofyn i'r disgyblion ymateb drwy godi eu dwylo, cofnodi eu hymatebion yn eu llyfrau neu drwy roi nodiadau gludiog neu sticeri ar dri gwahanol dabl Cytuno? Anghytuno? ar y bwrdd. Mewn parau, neu fel dosbarth, dylai'r disgyblion rannu a thrafod ymatebion. Cyflwynwch y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu. Eglurwch faint o wersi a dreulir arno ac a yw'n rhan o asesiad arholiad.	Sesiwn 1 Sleidiau PowerPoint 1-4
Gweithgareddau		
5-30 munud	Over to you Yn awr bydd y disgyblion yn ystyried enghreifftiau o unigolion sydd wedi cymryd camau gweithredu i geisio achosi newid. Dangoswch y ffilm <i>Over to you</i> (17 munud) gan Amnest Rhyngwladol, sy'n dangos pobl ifanc yn cymryd camau gweithredu dros hawliau dynol. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi <i>Over to you</i> (taflen waith 1) wrth iddynt wyllo'r ffilm. Dilynwch hwn gyda thrafodaeth ar gyfer grŵp bach neu'r dosbarth, gan ddefnyddio'r cwestiynau ar y sleid fel ysgogiad. Ewch yn ôl at y tri gosodiad yn y gweithgaredd 'Cytuno? Anghytuno?'. A yw'r disgyblion yn teimlo'r un peth o hyd?	Sleid PowerPoint 5 Ffilm <i>Over to You</i>; <i>Over to you</i> (worksheet 1) Sleid PowerPoint 3
30-55 munud	Beth sydd o bwys i chi? Esboniwrch bedwar cam y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu, a ddangosir ar sleid 6. Bydd y wers hon yn canolbwyntio ar gam 1. Gofynnwch i'r disgyblion ffurfio grwpiau o dri neu bedwar. Dyma fydd eu grŵp ar gyfer y prosiect cyfan, felly mae'n rhaid iddynt feddwl yn ofalus am eu dewis. Rhowch arweiniad iddynt a'u hannog i weithio gyda gwahanol bobl os ydych yn dymuno. Cam 1: Nodwch fater Dosbarthwch gopïau o Beth sydd o bwys i mi? (taflen waith 2) Darllenwch y cyfarwyddiadau fel dosbarth. Dylech atgoffa'r disgyblion am y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r gwerthoedd craidd mae'n ceisio eu hyrwyddo. Esboniwrch y dylai eu Prosiectau Cymryd Camau Gweithredu geisio hyrwyddo'r gwerthoedd hyn, a gellid hefyd amddiffyn neu hyrwyddo hawl dynol penodol. Dosbarthwch gopïau o'r daflen grynoded DCHD, yn y ffolder yng nghefn y pecyn, i'w helpu. Hefyd darperir y delweddau ar sleidiau 9-11 fel ysgogiad. Newidiwch y delweddau i adlewyrchu materion yn eich ardal leol, neu darparwch doriadau o bapurau newyddion o faterion lleol a byd-eang i'r disgyblion. Gofynnwch i grwpiau lunio rhestr o faterion hawliau dynol (lleol neu fyd-eang) a'u cofnodi ar daflen waith 2. Mae'r delweddau ar y sleidiau'n cynrychioli: bwlio; masnach deg, hawl i gysgod a safon byw ddigonol; yr hawl i geisio lloches, poenydio, materion anabledd a mynediad; hawliau merched; yr hawl i brawf teg; gwahaniaethu, y gosb eithaf; yr hawl i addysg; gorffwys a hamdden, a rhyddid mynegiant.	<i>Beth sydd o bwys i mi?</i> (taflen waith 2); taflen grynoded UDHR (yn y ffolder yng nghefn y pecyn) Sleidiau PowerPoint 6-11
55-60 munud	Cyfarfod llawn y grŵp Fel dosbarth trafodwch: pa fater oedd fwyaf o bwys i bob grŵp? Ysgrifennwch y materion hyn ar y bwrdd. Caniatewch i'r disgyblion y cyfle i newid grwpiau ar y cam hwn os digwydd iddynt anghytuno ag aelodau eraill o'u grŵp. Fodd bynnag, cadwch at grwpiau o dri neu bedwar i annog i bob aelod o'r grŵp gymryd rhan gymaint â phosibl.	Sleid PowerPoint 12

SESIWN 1 **TAFLEN WAITH 1**

OVER TO YOU

MATERION

Rhestrwch dri mater y mae gan y grwpiau yn y ffilm bryderon yn eu cylch

Grŵp 1

--

Grŵp 2

--

Grŵp 3

--

TARGED

Beth mae pob grŵp yn ceisio ei newid? Pwy maent yn eu targedu i gyflawni hyn?

Grŵp 1

--

Grŵp 2

--

Grŵp 3

--

PARHAD O DAFLEN WAITH 1

OVER TO YOU

MATERION

Rhestrwch dri gwahanol dechneg mae pob grŵp yn eu defnyddio i ymgyrchu dros newid.

Grŵp 1

--

Grŵp 2

--

Grŵp 3

--

EFFAITH

Pa ganlyniad gyflawnodd pob grŵp?

Grŵp 1

--

Grŵp 2

--

Grŵp 3

--

SESIWN 1 **TAFLEN WAITH 2**

BETH SYDD O BWYS I MI?

Enw:

Nodwch ystod o faterion hawliau dynol – gallent fod yn faterion yn eich cymuned leol, neu’n faterion sy’n effeithio ar y gymuned fyd-eang. Efallai bydd y delweddau ar y sleidiau’n helpu i ysgogi syniadau.

Pa fater sydd fwyaf o bwys i chi? Ar ba fater rydych chi eisiau cymryd camau gweithredu? Rhowch sgôr i bob mater ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 5 yn fater sydd o lawer o bwys i chi, ac un yn fater nad yw’n bwysig iawn i chi). Wedyn atebwch y cwestiwn ar waelod y daflen.

Os bydd barn wahanol gennych chi, bydd yn rhaid i chi gyfaddawdu neu bleidleisio i benderfynu.

Mater hawliau dynol	Lleol neu fyd-eang?	Sgôr

Pa fater sydd fwyaf o bwys i chi? Pam?